# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Talgarreg**

**Neuadd Goffa**
**Talgarreg**
**Llandysul**
**SA44 4ER**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Talgarreg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Talgarreg |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus, yn fodlon eu byd ac yn mwynhau treulio amser yng Nghylch Meithrin Talgarreg. Mae ganddynt ymdeimlad hyfryd o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gwneud ffrindiau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r plant yn cael cynnig dewisiadau da ac yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent am ei wneud. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes, ac maent yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel, gan feithrin cysylltiadau cryf â'r staff gofal.

Mae'r staff gofal yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn meddu ar lefel uchel o gymwysterau ac yn garedig tuag at y plant, gan ryngweithio'n gadarnhaol â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff gofal yn diwallu anghenion y plant yn llawn.

Caiff y plant ofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r staff gofal wedi nodi unrhyw risgiau diangen i'r plant ac wedi eu dileu gyhyd ag y bo'n bosibl. Mae digon o le a chyfleusterau i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn hybu annibyniaeth y plant. Caiff ei gadw a'i gynnal yn dda, ac mae wedi'i addurno'n dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli gwasanaeth trefnus. Maent yn sicrhau bod y staff gofal yn mynychu hyfforddiant ac yn cael cyfleoedd datblygu. Maent yn rheoli'r prosesau recriwtio yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r staff gofal ac yn dilyn eu polisïau a'u gweithdrefnau i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r partneriaethau'n dda iawn. Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn hapus, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Mae'r plant yn uchel eu cymhelliant ac yn dewis sut y maent am dreulio eu hamser.  Maent yn symud yn rhydd o amgylch yr ardaloedd chwarae a'r gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn awyddus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a siarad â'r staff gofal ac yn gwneud hynny'n hyderus. Maent yn gwybod bod eu teimladau'n cael eu hystyried wrth iddynt fwynhau sgwrsio â'r staff gofal am eu bywyd cartref a'u cynnwys yn eu chwarae.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn ddiogel; maent yn gyfarwydd â'r drefn. Er enghraifft, maent yn gwybod bod cân benodol yn arwydd ei bod hi'n amser tacluso. Mae ganddynt gydberthnasau cadarn â'r staff gofal ac maent yn mwynhau eistedd yn agos atynt, yn ogystal ag ar eu gliniau, yn ystod amser gweithgareddau. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'r staff gofal am dawelwch meddwl neu gysur pan fydd angen. Mae'r plant wedi dechrau gwneud ffrindiau; maent yn sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser cinio ac wrth chwarae; gan wenu a chwerthin wrth iddynt wneud hynny.

Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, roeddent yn mwynhau cyfrif, adnabod rhifau a pharu rhifau â meintiau. Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad, ac maent yn hyderus wrth gydweithredu, cymryd eu tro a rhannu. Er enghraifft, gwelsom blant yn cymryd eu tro wrth chwarae yn y gwelyau blodau, gan gymryd eu tro i balu am fwydod.

Mae'r plant yn dechrau dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn penderfynu drostynt eu hunain pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt a sut i gwblhau tasg. Er enghraifft, maent yn penderfynu drostynt eu hunain ble yr hoffent chwarae ac yn dewis o blith yr adnoddau sydd ar gael, gan fod popeth wedi'i storio o fewn cyrraedd iddynt. Gall y plant gael gafael ar eu heitemau personol a'u dychwelyd yn annibynnol i'w pegiau eu hunain sydd wedi'u labelu. Fodd bynnag, collwyd rhai cyfleoedd i feithrin annibyniaeth y plant, yn enwedig yn ystod amser byrbryd ac wrth baratoi i chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae ac yn cael hwyl wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r plant yn canolbwyntio ar dasgau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, gwelsom rai o'r plant yn canolbwyntio'n dda wrth wrando ar y stori tra bod rhai eraill yn dewis chwarae'n annibynnol yn yr ardal chwarae rôl, gan sgwrsio ar y ffôn a dweud “*helo*” wrth Mam a Dad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff gofal yn gweithio'n effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae eu gweithdrefnau hylendid yn dda. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â newid cewynnau. Maent yn cwblhau'r holl waith glanhau a'r holl asesiadau risg bob dydd. Mae'r staff gofal yn diheintio'r byrddau cyn i'r plant fwyta eu bwyd ac yn sicrhau eu bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol wrth newid cewynnau. Roedd y staff gofal yn hyderus o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o amddiffyn a diogelu plant pan gawsant eu holi am sefyllfaoedd posibl. Caiff cofnodion digwyddiadau a damweiniau eu cadw'n gywir. Mae'r staff gofal yn annog y plant i fwyta'n iach ac i yfed digon. Maent yn annog y rhieni i anfon byrbrydau a chiniawau iach ar gyfer eu plant. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol wrth drin bwyd. Mae'r staff gofal yn cynllunio cyfleoedd i'r plant dreulio amser yn yr awyr agored yn rheolaidd.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn dangos esiampl dda. Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda, gan ddefnyddio eu hoff deganau i dynnu eu sylw. Mae'r staff gofal yn canmol y plant yn briodol, er enghraifft am gyfrif yn dda, drwy ddweud *"Waw, ardderchog!"* . Mae gan y staff gofal gydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r staff gofal yn deall y polisi ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad ar waith yn ôl yr angen. Maent yn delio ag unrhyw ddadlau neu ymddygiad amhriodol yn gadarnhaol. Er enghraifft, gwelsom y staff gofal yn canmol y plant yn gyson pan oeddent yn ymddwyn yn dda ac yn ailgyfeirio'r plant at weithgaredd arall os oedd unrhyw anghytundebau bach. Roedd y staff gofal yn dangos esiampl o foesau da drwy gydol y sesiwn ac yn rhoi llawer o ganmoliaeth i'r plant pan oeddent yn efelychu'r ymddygiad hwn.

Mae staff profiadol a chymwys yn gofalu'n effeithiol am y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac maent yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau mynychu'r lleoliad, sy'n eu helpu i gynllunio'n effeithiol. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i rannu'r hyn yr hoffent ddysgu amdano, ond nid oes unrhyw ddull ar gyfer cynllunio profiadau dysgu na monitro cynnydd y plant. Mae tudalen cyfryngau cymdeithasol gaeedig wedi cael ei chreu er mwyn rhannu lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn ogystal â gwybodaeth bwysig arall. Mae'r staff gofal yn hybu Cymraeg y plant drwy gydol yr holl weithgareddau a thrwy amrywiaeth o ganeuon ag ystumiau ac amser stori. Mae'r staff gofal yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel iawn i'r plant. Mae system diogelwch gadarn ar waith y tu mewn i'r adeilad lle mae'n rhaid i bobl sydd am gael mynediad i'r lleoliad ganu'r gloch a chwblhau gwiriadau diogelwch cyn cael mynediad. Gofynnir i ymwelwyr gofrestru wrth gyrraedd y lleoliad. Caiff asesiadau risg dyddiol a chyffredinol eu diweddaru'n rheolaidd. Mae trefniadau glanhau ar waith ac yn cael eu llofnodi bob dydd. Caiff gwiriadau cynnal a chadw eu diweddaru a chawsant eu rhannu ag AGC yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn cynnal ymarferion tân rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff gofal yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardaloedd addas a digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r staff gofal yn parchu preifatrwydd ac urddas y plant, ac mae toiledau ar gael y tu allan i'r amgylchedd chwarae dynodedig, lle gall y plant ddatblygu eu hannibyniaeth, dan oruchwyliaeth y staff gofal. Mae sebon hylif a thywelion papur ar gael bob amser er mwyn golchi dwylo'n drylwyr. Mae'r staff gofal yn dathlu gwaith y plant drwy arddangos eu gwaith crefft a'u gwaith paentio o amgylch y lleoliad, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae arddangosfeydd sy'n dangos geirfa Gymraeg. Mae'r lleoliad yn addas ar gyfer profiadau chwarae a dysgu'r plant, ac mae'r staff gofal yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd hyn, gan gynnig amrywiaeth o brofiadau. Mae'r dodrefn, fel byrddau a chadeiriau isel, yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r amgylchedd yn olau ac yn agored.

Mae amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ar gael sy'n briodol i oedran a cham datblygu'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r ardaloedd dan do yn cynnig ardaloedd cyfoethog ag adnoddau darllen, chwarae rôl, chwarae dŵr, TGCh a chyfleoedd i archwilio a bod yn greadigol. Er bod yr ardal awyr agored yn fach, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn manteisio i'r eithaf ar y lle sydd ar gael. Mae'r ardal awyr agored yn cyfoethogi dysgu'r plant gydag ardaloedd chwarae dŵr, dringo, chwarae adeiladu, a garddio. Ceir adnoddau sy'n hyrwyddo diwylliannau gwahanol ac amrywiaeth. Caiff teganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel er mwyn i'r plant allu cael gafael arnynt yn annibynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gadarn ar gyfer y dyfodol. Maent yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad â'r staff gofal yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau'n rheolaidd ac mae eu datganiad o ddiben yn adlewyrchu arferion cyfredol; sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad hyddysg o ran p'un a all y lleoliad ddiwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn. Maent yn ymgorffori eu polisïau a'u gweithdrefnau'n llwyddiannus ac yn sicrhau y caiff y staff gofal eu dyrannu a'u trefnu'n dda er mwyn cynnal cymarebau staffio diogel a diwallu anghenion y plant yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli eu staff yn dda, ac mae ethos gweithio hapus a chyfeillgar rhwng y staff. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu staff rheolaidd. Mae'r staff yn canmol eu cydweithwyr ac yn teimlo bod y lleoliad fel uned deuluol. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Mae gan y staff gofal wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS); sy'n dangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith a bod proses sefydlu drylwyr yn cael ei chynnal. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant ‘Prevent’ i'w helpu i gadw'r plant yn ddiogel rhag peryglon eithafiaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diweddaru cofnodion yn llwyddiannus. Maent yn cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru a sefydliadau proffesiynol eraill mewn modd proffesiynol ac amserol.

Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys gwybodaeth i sicrhau eu bod yn cael y gofal mwyaf priodol iddynt, gan gynnwys contractau a chaniatâd y rhieni. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a gasglwyd gan y rhieni a oedd yn nodi anghenion penodol y plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Mae'r trefniadau hunanwerthuso yn bwrpasol ac yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystyried safbwyntiau'r rheini, y staff, y plant a gweithwyr proffesiynol eraill wrth lunio eu hadolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Defnyddir eu hadborth i bennu targedau a nodau er mwyn sicrhau y caiff y lleoliad ei redeg yn effeithiol yn y dyfodol.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Gwella sgiliau annibyniaeth y plant.

A2 Sicrhau bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant ar ddyletswydd Prevent.

A3 Datblygu dull ar gyfer cynllunio gweithgareddau a monitro cynnydd y plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Os byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/12/2022